

Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2025

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Grŵp Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2025. Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Jayne Bryant AS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai
30 Gorffennaf 2025

RHAN 1

1. Disgrifiad

1.1 Mae'r Rheoliadau hyn:

- yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â hawlogaethau aelodau'r cynllun yn ystod cyfnodau o absenoldeb profedigaeth rhiant
- yn cyflwyno cyfraddau newydd ar gyfer cyfraniadau aelod o fewn Cynllun Pensiwn 2015, a dull newydd o bennu'r cyfraddau hynny yn seiliedig ar strwythur sy'n gysylltiedig â rôl.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i Bwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Mae'r Rheoliadau yn darparu ar gyfer cynnydd yng nghyfraniadau cyflogai i Gynllun 2015. Mae cyfraniadau aelod yn elfen warchodedig, fel y'i diffinnir yn adran 22 o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013, a rhaid dilyn gweithdrefn benodol wrth wneud cynigion i'w newid. Yn gyntaf, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r rheini yr effeithir arnynt gan y cynigion (neu eu cynrychiolwyr) er mwyn dod i gytundeb â nhw (a22(1)(a)); ac yn ail rhaid iddynt osod adroddiad gerbron Senedd Cymru yn esbonio pam y maent yn cynnig gwneud y Rheoliadau (a22(1)(b)). Gosodwyd [adroddiad](#) o'r fath ar 29 Gorffennaf 2025; mae hefyd yn nodi'r camau a gymerodd Gweinidogion Cymru i ymgynghori er mwyn dod i gytundeb â phersonau (neu gynrychiolwyr y personau) y mae'n ymddangos yn debygol yr effeithir arnynt gan y Rheoliadau.

3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae'r Rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Maent yn diwygio Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015 ("Rheoliadau 2015"), sy'n sefydlu Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015 ("Cynllun Pensiwn 2015"), i wneud darpariaeth ar gyfer hawlogaeth aelodau'r cynllun yn ystod cyfnodau o absenoldeb profedigaeth rhiant, ac i gyflwyno cyfraddau newydd ar gyfer cyfraniadau aelod, a dull newydd o bennu'r cyfraddau hynny o 1 Medi 2025 ymlaen.

3.2 Mae Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015 yn rheoliadau sy'n ymwneud â'r cynllun at ddibenion adran 1(1) o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013. Mae adrannau 2 (ynghyd â pharagraff 6(b) o Atodlen 2) a 3 (ynghyd â pharagraffau 9(a) a (b) o Atodlen 3) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud a diwygio rheoliadau ar gyfer y cynllun sy'n ymwneud â diffoddwyr tân a gyflogir gan yr awdurdodau tân ac achub yng Nghymru.

3.3 Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn yn rhinwedd y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 1(1) a (2)(f), 2(1), 3(1), (2)(a) a (3)(a) o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013, a pharagraff 6(b) o Atodlen 2 a pharagraffau 9(a) a (b) o Atodlen 3 iddi.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Mae holl aelodau gweithredol Cynllun Pensiwn 2015 yn cyfrannu at y cynllun drwy dalu cyfraniadau cyflogai, sydd fel arfer yn cael eu tynnu o'r cyflog. Mae cyfradd gyfraniadau cyflogai yn ganran o'r cyflog pensiynadwy y mae pob cyflogai'n ei gyfrannu at y cynllun. Gelwir cyfanswm cyfran y cyflog pensiynadwy y disgwylir i aelodau ei gyfrannu at y cynllun gyda'i gilydd yn arenillion. Mae Trysorlys EF yn ei gwneud yn ofynnol i'r arenillion fod yn 13.2% o leiaf, er mwyn cyfyngu ar gost y cynllun i'r pwrs cyhoeddus. Yn yr ymarfer prisio diwethaf, nododd Adran Actiwari'r Llywodraeth fod yr arenillion a sicrhawyd drwy'r cynllun ychydig yn is na'r hyn sydd ei angen, sef ychydig o dan 13.0%. Felly, mae angen i strwythur cyfraddau'r cyfraniadau newid er mwyn sicrhau bod y cyfraniadau'n darparu arenillion o 13.2% yn yr ymarfer prisio nesaf.

4.2 Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Cynllun Pensiwn 2015 i ddarparu ar gyfer cyfradd newydd ar gyfer cyfraniadau cyflogai, a dull newydd o bennu cyfraddau cyfraniadau aelod o 1 Medi 2025 ymlaen. Nid oes i'r Rheoliadau rym ôl-weithredol. O dan y dull newydd, mae cyfraddau cyfraniadau aelod yn seiliedig ar strwythur graddau safonol y Gwasanaeth Tân ac Achub (fel y'i nodir yn y "Llyfr Llwyd", a gytunwyd ac a gyhoeddwyd gan y Cyd-Gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub) yn hytrach nag ystod cyflog pensiynadwy. Mae'r dull newydd hwn yn diffinio rolau aelodau'r cynllun at ddiben cyfraddau cyfraniadau aelod ac yn darparu y bydd y rolau hyn yn perthyn i 1 o 5 haen, y pennir cyfraddau cyfraniadau aelod yn eu herbyn o 1 Medi 2025 ymlaen.

4.3 Mae'r haenau hyn wedi'u diffinio ar sail y strwythur graddau a gyhoeddwyd a'r amlinelliad o rolau sy'n diffinio dyletswyddau pob un. Caiff y rhain eu defnyddio gan yr holl Wasanaethau Tân ac Achub ledled y DU ers dros ugain mlynedd. Mae'r rhain hefyd ar gael [yma](#). Mae'r haenau yn rheoliad newydd 119A yn cyfuno un neu fwy o rolau (er enghraifft, mae haen 2 yn cynnwys Rheolwr Criw a Rheolwr Gwylfa) ac yn pennu cyfradd gyfraniadau ar gyfer yr holl aelodau sydd yn y rolau hynny. O ganlyniad, mae cyfraddau'r cyfraniadau yn cynyddu yn ôl cyfrifoldeb y rôl. Fodd bynnag, mae'r Rheoliadau yn darparu y bydd diffoddwyr tân wrth gefn a gwirfoddol (y mae eu henillion yn is bob amser na'u swyddogion cyfatebol llawn amser) yn talu cyfraniadau yn yr haen isaf, waeth beth fo'u rôl.

4.4 Un o fanteision y drefn hon yw eglurder a sicrwydd i aelodau'r cynllun: ni fydd eu cyfradd gyfraniadau yn newid oni bai eu bod yn newid gradd (fel rheol oherwydd eu bod yn cael dyrchafiad). O dan y trefniadau blaenorol, byddai aelodau yn symud i haen gyfraniadau uwch pe bai dyfarniad cyflog blynyddol yn codi lefel eu cyflog pensiynadwy i'r haen uwch honno. Roedd hynny'n golygu hefyd bod y system yn caniatáu llai o gynnydd dros amser, wrth i ddyfarniadau cyflog symud mwy o ddiffoddwyr tân i haenau uwch a gadael ychydig, os o gwbl, yn yr haen isaf.

4.5 Mae'r Rheoliadau hefyd yn diwygio Cynllun Pensiwn 2015 i roi eglurder ynghylch sut y dylid ymdrin ag absenoldeb a thâl profedigaeth rhiant wrth gyfrifo hawlogaeth i fudd-daliadau'r cynllun sy'n seiliedig ar wasanaeth pensiynadwy a thâl pensiynadwy. Gwneir hyn drwy fewnosod cyfeiriadau at absenoldeb profedigaeth rhiant a thâl profedigaeth rhiant statudol, er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â'r hawlogaethau hyn yn yr un modd â hawlogaethau absenoldeb a thâl eraill sy'n gysylltiedig â'r teulu (er enghraifft absenoldeb a thâl rhiant a rennir) at ddibenion cyfrifo hawlogaeth i fudd-daliadau'r cynllun pensiwn. Mae hyn hefyd yn sicrhau bod absenoldeb a thâl profedigaeth rhiant statudol yn cael yr un statws o'u cymharu â hawlogaethau absenoldeb a thâl eraill sy'n gysylltiedig â'r teulu, sydd fel arfer yn gysylltiedig â genedigaeth neu fabwysiadu plentyn.

5. Ymgynghori

5.1 Mae adran 21(1) o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 yn ei gwneud yn ofynnol ymgynghori â phersonau (neu gynrychiolwyr y personau) y mae'n ymddangos yn debygol i'r awdurdod cyfrifol yr effeithir arnynt gan y Rheoliadau pe baent yn cael eu gwneud.

5.2 Bwriedir i'r diwygiadau mewn perthynas ag absenoldeb a thâl profedigaeth rhiant fod yn fuddiol i holl aelodau'r cynllun yr effeithir arnynt, ac ni ddylent gael effaith o gwbl ar gyllidebau craidd yr Awdurdodau Tân ac Achub (gan ein bod ar ddeall bod pob Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru eisoes yn dewis ymdrin ag absenoldeb a thâl profedigaeth fel elfennau sy'n bensiynadwy o dan Gynllun 2015). Yn unol â hynny, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru â Bwrdd Cyngori Cymru ar Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân mewn perthynas â'r diwygiadau hyn. Mae'r Bwrdd Cyngori yn cynnwys y tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru a phedwar undeb a chorff cynrychioliadol cydnabyddedig y diffoddwyr tân.

5.3 Roedd holl aelodau Bwrdd Cyngori Cymru ar Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (cyflogwyr a chyflogeion) yn fodlon â'r gwelliannau arfaethedig yn ymwneud ag absenoldeb profedigaeth.

5.4 Mae adran 22 o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 hefyd yn nodi gofyniad ar wahân i ymgynghori pe bai Gweinidogion Cymru yn dymuno gwneud rheoliadau pellach ar gyfer y cynllun sy'n cynnwys newidiadau sy'n effeithio ar elfennau gwarchodedig. Mae cyfraddau cyfraniadau aelod wedi'u cynnwys yn y diffiniad o elfennau gwarchodedig o dan adran 22(5). O dan adran 22(2)(a), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r personau (neu gynrychiolwyr y personau) y mae'n ymddangos yn debygol i'r awdurdod cyfrifol yr effeithir arnynt gan y Rheoliadau pe baent yn cael eu gwneud, gyda golwg ar ddod i gytundeb. Yn unol ag adran 22(2)(b), mae adroddiad hefyd wedi'i osod gerbron y Senedd sy'n esbonio pam mae Gweinidogion Cymru yn cynnig gwneud y Rheoliadau, gan ystyried y ddelfryd o beidio â gwneud newid i elfennau gwarchodedig cynllun o dan adran 1 o fewn y cyfnod gwarchodedig.

5.5 Yn unol ag adran 22(2)(a), cynhaliodd Llywodraeth Cymru gyfarfod ag aelodau Bwrdd Cyngori Cymru ar Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân cyn yr

ymarfer ymgynghori cyhoeddus er mwyn cytuno ar gyfres o egwyddorion sylfaenol ar gyfer cyfradd newydd ar gyfer cyfraniadau aelod a dull newydd o bennu cyfraddau cyfraniadau o 1 Medi 2025 ymlaen. Cynhaliwyd trafodaethau manwl hefyd mewn perthynas â'r cynigion mwyaf priodol i ymgynghori arnynt. Yn dilyn y trafodaethau hyn, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus deuddeg wythnos, rhwng 12 Tachwedd 2024 a 4 Chwefror 2025, yn gwahodd barn rhanddeiliaid ar yr opsiynau arfaethedig ar gyfer newid. Mae'r ddogfen Ymgynghori sy'n amlinellu'r cynigion a'r Crynodeb o'r Ymatebion i'w gweld [yma](#).

5.6 Trafodwyd y cynigion i newid cyfraddau'r cyfraniadau a'r dull ar gyfer eu pennu yn fanwl yn sawl un o gyfarfodydd Bwrdd Cynghori Cymru ar Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân¹, a thynnwyd sylw sefydliadau sy'n cynrychioli staff gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru, a rheolwyr a gweinyddwyr perthnasol y cynllun atynt.

5.7 Mae pob ymgynghoriad ffurfiol gan Lywodraeth Cymru ar faterion yn ymwneud â phensiynau diffoddwyr tân, gan gynnwys ar y rheoliadau hyn a rheoliadau eraill y cynllun, ar gael i'r cyhoedd ac nid ydynt wedi eu cyfyngu i sefydliadau penodol. Gall unrhyw sefydliad neu unigolyn eu darllen ac ymateb iddynt os dymunant; rydym yn ceisio drafftio dogfennau ymgynghori mewn ffyrdd sy'n hygyrch i aelodau unigol y cynllun yn ogystal ag i'w cyflogwyr a'u cyrff cynrychioliadol. Pan fo newidiadau yn fân iawn ac yn dechnegol eu natur neu pan fyddant yn amlwg yn fuddiol i aelodau'r cynllun, gallwn ddewis ymgynghori â Bwrdd Cynghori Cymru ar Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn unig (fel yn achos y newidiadau i'r rheolau ar absenoldeb profedigaeth).

5.8 Cafodd Llywodraeth Cymru 18 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Daeth yr ymatebion hynny gan y tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru, sefydliadau cynrychioliadol ac undebau llafur sy'n cynrychioli staff yr Awdurdodau Tân ac Achub, Bwrdd Cynghori Cymru ar Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân, ac 13 unigolyn.

5.9 Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi cael eu hystyried. Roedd cytundeb eang y dylai'r dull o gyfrifo cyfraniadau cyflogai fod yn seiliedig ar radd. Fodd bynnag, gwnaed sylwadau ar sawl elfen, gan gynnwys:

- y dylai'r cynnydd mewn cyfraniadau yr oedd ei angen i fodloni arenillion y cynllun gael ei ddosrannu'n deg ar draws holl aelodau a holl haenau'r cynllun
- pryder Bwrdd Cynghori Cymru ar Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân na fyddai'r dyddiad gweithredu a awgrymwyd i ddechrau, sef 1 Ebrill 2025, yn caniatáu digon o amser i reolwyr a gweinyddwyr y cynllun gyfathrebu ag aelodau'r cynllun ynghylch y newid yn y gyfradd, ac amser i ddiweddarau eu systemau cyflogres a'u meddalwedd.

¹ Aelodau'r Bwrdd yw: tri Awdurdod Tân ac Achub Cymru; Undeb y Brigadau Tân; Cymdeithas yr Arweinwyr Tân; Cymdeithas y Swyddogion Tân; a'r Gymdeithas Gwasanaethau Tân ac Achub. Mae'r Cadeirydd yn annibynnol ar bob un o'r sefydliadau hyn.

5.10 Er mwyn cydymffurfio ag adran 22 o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013, parhaodd swyddogion i ymgysylltu ac ymgynghori ag aelodau Bwrdd Cyngori Cymru ar Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn ystod ac ar ôl yr ymgynghoriad er mwyn dod i gytundeb ar y strwythur a'r gyfradd fwyaf priodol ar gyfer cynllun pensiwn y diffoddwyr tân. Comisiynwyd Adran Actiwari'r Llywodraeth i gynhyrchu cyfrifiadau pellach i sicrhau bod cyfraddau'r cyfraniadau yn deg ar draws pob gradd. Daethpwyd i gytundeb gyda phob aelod o Fwrdd Cyngori Cymru ar Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân ond un. O dan yr amgylchiadau, nid oedd yn bosibl dod i gytundeb llwyr, ond mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod pob cam posibl wedi'i gymryd i wneud hynny, bod mwyafrif clir o'r rhai yr effeithir arnynt o blaid ein cynigion, a bod y ddyletswydd yn adran 22 wedi'i chyflawni.

5.11 Gwneir y Rheoliadau â chydsyniad Trysorlys EF, yn unol ag adran 3(5) o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013.

RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

6. Yr opsiynau

6.1 Mae'r opsiynau sy'n agored i Weinidogion Cymru fel a ganlyn.

Opsiwn 1 – gwneud dim

6.2 Mae Trysorlys EF yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynllun sicrhau arenillion o 13.2% yn benodol dros gylch prisio pedair blynedd. Ar hyn o bryd, tua 13.0% yw arenillion y Cynllun. Y diffiniad o arenillion y cynllun yw cyfran y cyflog pensiynadwy sy'n cael ei dalu i'r cynllun ar ffurf cyfraniadau aelodau. Yr unig ffordd, felly, i gynyddu arenillion y cynllun yw cynyddu cyfraddau'r cyfraniadau i lefel a fydd, yn ôl cyfrifiadau actiwaraid, yn sicrhau'r swm gofynnol.

6.3 Byddai peidio â gwneud y rheoliadau yn golygu bod Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) yn parhau i fethu â sicrhau'r arenillion sy'n ofynnol gan Drysorlys EF. Byddai hynny hefyd yn creu risg o ansolfedd i'r cynllun (hy, bod incwm y cynllun yn annigonol i dalu cost y budd-daliadau).

6.4 Byddai peidio â gwneud y rheoliadau hefyd yn golygu na fyddai'n rhaid trin absenoldeb profedigaeth rhiant fel gwasanaeth pensiynadwy. Ni fyddai hyn yn cydymffurfio â Deddf Profedigaeth Rhiant (Absenoldeb a Thâl) 2018, er bod pob un o dri chyflogwr diffoddwyr tân yng Nghymru eisoes yn dewis trin absenoldeb o'r fath fel gwasanaeth pensiynadwy.

Opsiwn 2 – codi cyfraddau'r cyfraniadau gan ddefnyddio'r mecanwaith presennol yn seiliedig ar fandiau cyflog

6.5 Byddai modd sicrhau arenillion y cynllun drwy gynyddu'r cyfraniadau sy'n daladwy o bob un o'r bandiau cyflog presennol, a hefyd drwy adolygu'r bandiau hynny.

6.6 Un o fanteision yr opsiwn hwn yw ei fod yn syml. Fodd bynnag, byddai anfanteision y system bresennol yn parhau, sef bod bandiau cyflog yn dod i ben dros amser wrth i ddyfarniadau cyflog symud aelodau'r cynllun i fandiau uwch, gan ganiatáu llai o gynnydd o fewn y system hefyd. Mae hefyd yn golygu na all aelodau'r cynllun fod yn sicr o gyfradd eu cyfraniadau dros amser, a'u bod yn colli rhywfaint o ddyfarniad cyflog blynyddol os cânt eu symud i fand cyfraniadau uwch.

Opsiwn 3 – codi cyfraddau'r cyfraniadau a disodli'r system sy'n seiliedig ar gyflog â system sy'n seiliedig ar radd

6.6 Mae'r opsiwn hwn yn golygu gwneud y rheoliadau fel y'u drafftwyd. Byddai hyn yn sicrhau arenillion y cynllun ac yn dod â sefydlogrwydd a sicrwydd i gyfraddau'r cyfraniadau dros amser. Dim ond pe bai aelod yn cael dyrchafiad (neu, mewn sefyllfa eithriadol, israddiad) y byddai cyfradd ei gyfraniadau yn

newid.

7. Costau a manteision

Costau

7.1 Bydd y rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i aelodau'r cynllun dalu cyfraniadau uwch yn unol â'r cyfraddau a nodir yn y rheoliadau. Bydd yr union symiau yn dibynnu ar eu tâl pensiynadwy gwirioneddol, ond yn gyffredinol byddant yn gymhedrol. Bydd cyfraniadau diffoddwr tân rheng flaen sy'n ennill y cyflog sylfaenol safonol, er enghraifft, yn cynyddu ychydig dros £3 y mis. Gan fod cyfraniadau pensiwn yn cael eu trethu, bydd yr effaith net ar y cyflog sy'n cyrraedd piced yr unigolyn ychydig yn llai na hynny.

7.2 Caiff cyfraniadau cyflogeion eu tynnu o'r cyflog ar unwaith gan gyflogwyr. Ni fyddai gofyn i aelodau'r cynllun wneud unrhyw beth, felly, yn sgil newid y cyfraddau.

7.3 Gallai'r gwaith o ailgyflunio systemau'r gyflogres er mwyn cyflwyno cyfraddau newydd y cyfraniadau, ynghyd â'r broses o gyfathrebu â'u staff ynghylch y cyfraddau newydd, greu rhai costau gweinyddol i'r Awdurdodau Tân ac Achub. Fodd bynnag, byddai'n rhaid gwneud y gwaith gweinyddol hwnnw er mwyn newid y cyfraddau, ac mae'r costau hynny yn anochel felly.

7.4 Wrth gwrs, mae absenoldeb profedigaeth rhiant yn beth anghyffredin iawn. Mae pob un o'r tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru eisoes yn dewis trin absenoldeb o'r fath fel gwasanaeth pensiynadwy. Ffurfioli'r sefyllfa y mae'r Rheoliadau, yn syml iawn, ac ni fyddant yn creu unrhyw gostau ychwanegol (nac unrhyw fanteision ychwanegol).

Manteision

7.5 Bydd gwneud y rheoliadau yn sicrhau bod y Cynllun yn darparu'r arenillion gofynnol ac yn sicrhau ei solfedd. Drwy gysylltu cyfraddau cyfraniadau â gradd yn hytrach na chyflog, bydd hefyd yn darparu sicrwydd hirdymor ynghylch cyfraddau cyfraniadau i aelodau'r cynllun a chyflogwyr.

8. Asesu'r gystadleuaeth

Amherthnasol

9. Adolygiad ôl-weithredu

9.1 Cynhelir hwn drwy Fwrdd Cyngori Cymru ar Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân, a bydd cynrychiolwyr cyflogwyr a chyflogeion yn cael cyfle i godi materion yn ymwneud â'r Rheoliadau eu hunain a'r trefniadau ymarferol ar gyfer eu rhoi ar waith.

9.2 Bydd Actiwari'r Cynllun yn ailgyfrifo arenillion y cynllun ac unrhyw newidiadau sy'n angenrheidiol yn y cyfraddau er mwyn sicrhau'r arenillion hynny fel rhan o'r prisiad pedair blynedd nesaf.